

Adroddiad cyntaf i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad cyntaf i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Andrew RT Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



John Griffiths AS
Llafur Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Y gŵyn	5
3.	Materion o Egwyddor Gyffredinol.....	6

1. Cyflwyniad

1. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn Rheol Sefydlog 22.1. Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

“mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi...”.

2. Lluniwyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd (y Weithdrefn).

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a'r hyn a ystyriodd y Pwyllgor wrth lunio ei argymhelliad.

2. Y gŵyn

4. Cyflwynodd y Comisiynydd Safonau (y Comisiynydd) adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ymwneud â chyn Aelod o'r Senedd (Aelod). Roedd yr adroddiad hwn yn unol ag atgyfeiriad gan y Clerc i'r Senedd at y Comisiynydd ynghylch camddefnyddio adnoddau'r Senedd.

5. Mae'r gŵyn yn ymwneud ag aelod o staff cymorth yn swyddfa'r Aelod a oedd yn defnyddio'r lwfans costau swyddfa a ddyrannwyd i Aelodau yn amhriodol ar gyfer deunyddiau ysgrifennu a gafodd eu gwerthu wedi hynny. Gwnaeth yr Aelod dan sylw roi gwybod am yr aelod o staff ar unwaith ar ôl dod yn ymwybodol o'r sefyllfa. Yn dilyn ymchwiliad troseddol, cafwyd yr aelod o staff cymorth yn euog o ddwyn.

6. Yn ogystal â chaffael a gwerthu deunyddiau ysgrifennu, canfuwyd hefyd bod yr aelod o staff cymorth wedi bod yn defnyddio adnoddau'r Senedd at ddibenion plaid wleidyddol.

7. Daeth y Comisiynydd i'r casgliad yn y ddau achos hyn ei fod yn fodlon o ran yr Aelod:

“...did not authorise or have prior knowledge of the ordering and theft of the items by [the member of support staff] nor of ...use of the Commission ICT system for party political purposes”.

8. Daeth i'r casgliad yn lle hynny:

“Both instances of misconduct by [the member of support staff] can properly be regarded as ‘rogue actions’ for which the Member of the Senedd was not responsible.”

9. O ganlyniad, gwrthododd y Comisiynydd y gŵyn.

Ystyriodd y Pwyllgor y ffeithiau a ganfuwyd yn adroddiad y Comisiynydd a chytunodd â chanfyddiad y Comisiynydd na thorwyd darpariaethau'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â defnyddio adnoddau'r Senedd.

10. Gan fod y Pwyllgor wedi canfod nad oedd achos o dorri'r Cod Ymddygiad, mae'r adroddiad hwn yn ddienw yn unol â gofyniad y Weithdrefn.

3. Materion o Egwyddor Gyffredinol

11. Croesawodd y Pwyllgor ganfyddiad y Comisiynydd y bu “newid sylfaenol” yn y system ar gyfer caffael deunydd ysgrifennu gan Aelodau, sydd bellach yn darparu:

“...a much greater degree of protection against dishonesty of the kind perpetrated [in this instance]”.